PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 41 | Hydref 8, 2026 | 50c.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â'r Parchg Eirian Rees a Mrs Ann Rees, Geraint Rees a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth lem. Bu farw Ioan, brawd Geraint, yn ddiweddar a gweddïwn y bydd goleuni atgyfodiad yr Arglwydd Iesu yn llewyrchu arnynt.

# Cyngor am gynnal eglwys fywiog

Mae nifer cynyddol o eglwysi yn gorfod cynnal yr achos y dyddiau hyn heb weinidog ordeiniedig. Er bod e'n brofiad newydd i sawl eglwys, dyna fu hanes y Tabernacl, Efailisaf, Pontypridd ers dros 70 mlynedd. Ond er gwaethaf hynny, mae'n eglwys flaengar a bywiog. Ar wahoddiad cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin fe deithiodd Geraint a Caroline Rees o'r Efailisaf i fryniau Sir Gâr i rannu eu profiadau gyda chynulleidfa'r Cwrdd Chwarter hwyrol yng nghapel Hermon, Cynwyl Elfed.



### Naws heriol ond adeiladol

Dechreuodd Geraint y cyflwyniad gyda geiriau Martin Luther ar y sgrîn: 'Ym mhob man yr adeiladodd Dduw eglwys, fe adeilada'r diafol gapel …' Fe wnaeth hynny osod naws heriol ond adeiladol y noson. Wrth roi cefndir yr achos a chymdeithas yn Efailisaf datgelodd bod y gweinidog olaf wedi gadael y Tabernacl ym 1953. Yn y 1960au bu'r iaith Gymraeg ar drai yn yr ardal, a bu'r capel bron â chau. Ym 1970 cynhaliwyd oedfaon yn y ddwy iaith ar wahân.

### Defnyddio doniau

Fe wnaeth yr aelodau sylweddoli fod angen iddynt brofi nad gwaith y diafol a wnânt, ac er nad oedd neb wedi'u hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth, aethant ati i wneud yr hyn a allent. Tua'r un adeg daeth Eirian Rees i'r ardal yn athro, a gwahoddwyd ef i fod yn weinidog gwirfoddol, gyda chymorth nifer o wirfoddolwyr o'r eglwys. Yn nes ymlaen sefydlwyd yr eglwys yn gwmni cyfyngedig gan ei fod, ar y pryd, yn haws cael grantiau o wahanol ffynonellau i wneud hyn.

### Creu timau

Wrth i'r gynulleidfa wrando'n astud, fe aeth Geraint a Caroline ymlaen i esbonio sut y lluniwyd polisïau gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Crëwyd nifer o dimau i fod yn gyfrifol am wahanol agweddau o'r gwaith. Byddai aelodau'r timau mewn swydd am 10 mlynedd, ac yn cyfarfod am awr bob mis. Crëwyd grwpiau i fod yn gyfrifol am drefnu'r oedfaon, cyfeilio, ffrydio oedfaon ac ymweld – nid yn unig ag aelodau mewn angen, ond hefyd pobl yn y gymuned.





### Offeiriadaeth yr holl saint

Bu'n arferiad i gael gweinidog i gynnal oedfa a gweinyddu'r cymun ar Sul cyntaf y mis yn y Tabernacl. Ond fel eglwys yn y traddodiad Annibynnol, sylweddolwyd y gallai unrhyw aelod sy'n cael sêl bendith y gynulleidfa weinyddu'r sacrament. Yn hytrach na'r 'hymn sandwich' arferol, ceir amrywiol fathau o oedfaon o Sul i Sul. Penodwyd Swyddog Ieuenctid a Chymunedol, i drefnu pobl i fod yn gyfrifol am yr ysgol Sul i blant a phobl ifainc, ac i dynnu aelodau o'r gymuned i mewn i weithgareddau'r eglwys a digwyddiadau dwyieithog. Soniwyd hefyd

*parhad ar dudalen 2*





# Ffydd sy'n dod yn fyw

Mae un egwyddor wedi ymddangos dro ar ôl tro wrth i ni ystyried amrywiol arweddau ffydd sef nad rhywbeth i'w gredu yn unig yw'r ffydd Gristnogol – mae'n rhywbeth i'w fyw. Siaradodd Iesu am fyw 'bywyd yn ei holl gyflawnder'. Nid yw hyn yn golygu bywyd heb siom, salwch, unigrwydd na galar. Nid yw Cristnogaeth yn gofyn inni esgus nad yw dioddefaint yn real. Yn hytrach, mae'n cynnig ffordd inni wynebu bywyd gyda dewrder, pwrpas a gobaith. Mae'n ein hatgoffa nad oes rhaid inni wynebu'r byd yn gyfan gwbl yn ein nerth ein hunain.

## Croeso cynnes

Nid yw bywyd llawn o reidrwydd yn cael ei fesur yn ôl cyfoeth, llwyddiant na chydnabyddiaeth. Fe'i ddarganfyddir yn aml mewn perthynas: â Duw, â'n teuluoedd, â'n cymdogion ac â'r gymuned ehangach. Gall ddod i'r golwg o amgylch bwrdd mewn caffi, mewn sgwrs dawel, drwy rannu pryd o fwyd, neu pan fydd rhywun yn cymryd yr amser i wrando. Dyma pam mae croeso yn rhan mor bwysig o'r bywyd Cristnogol. Wrth groesawu rhywun arall, rydym yn dweud: Rwyt ti'n bwysig. Mae lle i ti yma.' Mae eglwysi a chanolfannau cymunedol ar eu gorau pan fyddant yn creu mannau lle mae pobl yn teimlo bod rhywun yn eu gweld, yn eu gwerthfawrogi ac yn eu cynnwys. Mae adeiladau'n bwysig, ond datgelir eu gwir bwrpas drwy'r perthynasoedd hyn a'r cyfleoedd sy'n tyfu oddi mewn iddynt.

## Maddeuant a chymod

Fe wnaeth ein myfyrdodau blaenorol ar Gomisiwn Gwirionedd a Chymod De Affrica ein hatgoffa nad yw maddeuant yn golygu esgus nad oedd anghyfiawnder wedi digwydd. Mae'n golygu gwrthod caniatáu i glwyfau'r gorffennol reoli'r dyfodol. Mae dameg y Mab Afradlon yn cynnig neges debyg. Nid yw'r tad yn gwadu bod ei fab wedi gwneud camgymeriadau, ond mae'n gadael y drws yn agored iddo ddychwelyd. Mae gras yn creu'r posibilrwydd o ddechrau newydd. Mae'r wers honno'n bwysig ymhell y tu hwnt i wrthdaro cenedlaethol neu straeon Beiblaidd. Gall teuluoedd, eglwysi a chymunedau i gyd gario hen anghytundebau. Mae cymod yn dechrau pan fydd rhywun yn dod o hyd i'r dewrder i wrando, i siarad yn onest ac i gymryd y cam cyntaf tuag at rywun arall. Diddorol yw nodi yn y fan yma, safbwynt y brenin with i'w fab a'i deulu ddychwelyd i Brydain wedi holl helbul ei ymadawiad chwe blynedd yn ôl.

Mae gweddi hefyd yn perthyn i'r patrwm hwn o fyw. Nid yw gweddi bob amser yn ymwneud â derbyn atebion ar unwaith. Weithiau, dyma'r man lle rydym yn dod â'n cwestiynau, ein hamheuon a'n hofnau. Mae'n ein hatgoffa y gall ffydd ac ansicrwydd fodoli ochr yn ochr. Hyd yn oed pan nad yw'r amgylchiadau'n newid, gall gweddi newid y ffordd rydym yn eu hwynebu, gan roi digon o nerth inni gymryd y cam nesaf.

## Gobaith

Yn y ddealltwriaeth Gristnogol, nid optimistiaeth oddefol yw gobaith. Mae'n obaith sy'n troi'n weithred. Mae'n paratoi pryd o fwyd, yn ymweld â rhywun sy'n unig, yn annog plentyn, yn croesawu dieithryn, yn adfer perthynas neu'n gwirfoddoli heb ddisgwyl canmoliaeth. Mae llawer o'r gwasanaeth Cristnogol pwysicaf yn digwydd yn dawel. Gall gweithredoedd bach ymddangos yn ddibwys, ond gyda'i gilydd maent yn ffurfio cymeriad cymuned. Maent yn adeiladu ymddiriedaeth rhwng y cenedlaethau, yn creu ymdeimlad o berthyn ac yn dangos i bobl nad ydynt ar eu pennau eu hunain.

Efallai mai dyma'r egwyddor sy'n dwyn ein holl fyfyrdodau ynghyd: daw ffydd yn weladwy drwy gariad. Fe'i mynegir nid yn unig yn yr hyn a ddywedwn ar y Sul, ond yn y ffordd rydym yn trin pobl drwy gydol yr wythnos. Efallai na allwn ddatrys pob anhawster nac ateb pob cwestiwn, ond gallwn wrando, croesawu, maddau, gwasanaethu a pharhau i obeithio.

Wrth wneud hynny, rydym yn helpu ein gilydd i brofi rhywbeth o'r bywyd a addawodd Iesu – bywyd a gyfoethogir gan dosturi, pwrpas, cymuned a phresenoldeb Duw.



# Cyngor am gynnal eglwys fywiog – parhad

am y stôr o ddeunydd ag offer domestig sy'n cael eu cadw yn y capel i'w dosbarthu i bobl sydd mewn angen yn y gymuned leol.

### Mae'r dyfodol yn ein dwylo ni

Anodd meddwl am eglwysi mwy gwahanol eu natur na'r Tabernacl yng nghymoedd y de ag eglwysi gwledig Sir Gâr. Ond eto cafodd pawb syniadau i fynd nôl i'w heglwys hwy i'w trafod a'u rhoi ar waith. Roedd Geraint a Caroline Rees wedi dangos bod ein dyfodol yn nwylo'r aelodau, a bod angen i ni feddwl 'tu allan i'r bocs' a thu allan i furiau capel.

### Diolch

Ar ddechrau'r cwrdd, canwyd emyn i gyfeiliant Gwenan Evans wrth yr organ, cyn cael darlleniad a gweddi gan Lois Evans. Ar ddiwedd y cyfarfod, fe ddiolchodd Iona Morgan, Gibeon, i Geraint a Caroline Rees ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant cyfarfodydd y pnawn a'r hwyr, ac am y bwyd rhwng y cyfarfodydd. Bydd y Cwrdd Chwarter nesa yn y Priordy, Caerfyrddin ar ddydd Iau, 26 Tachwedd am 10.30am a 1.30pm.

(*Bydd adroddiad o gyfarfod y pnawn mewn rhifyn pellach o'r* Tyst)

(Allan o e-bost wythnosol Seion, Drefach 9 Medi 2026.)

Yr Adran Gydenwadol


8 Hydref 2026
Rhifyn 293

I ddarllen y cyhoeddiad digidol
*Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# *Croesi'r ffin: wynebu angau law yn llaw*

*Croesi'r ffin* yw teitl cyfrol ddiweddaraf Prydwen Elfed-Owens, sef casgliad o ysgrifau a phrofiadau wrth wynebu colled a galar. Llwyddodd Prydwen i berswadio dros 40 o gyfranwyr i rannu o'u profiadau wrth ddelio â marwolaeth, a bydd darllen y rhain yn siŵr o fod o help i lawer.

Dydd Iau, 17 Medi, braf oedd gweld llawr Theatr Twm o'r Nant yn Ninbych yn gyfforddus lawn wrth groesawu nifer sydd wedi cyfrannu at y gyfrol a chynulleidfa ehangach ar gyfer cyfarfod lansio. Wedi i Prydwen dderbyn copi drwy law Cyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair, Aled Davies, aeth ymlaen i esbonio pwrpas y llyfr, gan wahodd nifer o gyfranwyr ymlaen i rannu eu profiadau. Darllenwyd nifer o gerddi hefyd gan reolwraig y theatr, sef Gaynor Morgan Rees. Cafwyd cyfle hefyd i ganu ambell emyn, a diolch i Robert Parry a Maryl Rees am gyfeilio ac i Aled Lewis Evans am ei ddarlleniadau.






Meddai'r awdur:

> Er y teitl, rhaid pwysleisio nad cyfrol am farwolaeth yw hon, ond cyfrol sy'n canolbwyntio ar wynebu marwolaeth, i'n galluogi i fyw ein bywydau i'r eithaf. Fy amcan wrth lunio'r gyfrol oedd rhannu profiadau er mwyn ennyn trafodaeth ac estyn allan i helpu eraill. Mae pob cyfrol yn rhyw fath o lyfr ryseitiau! Mae hynny'n fwriadol er mwyn cynnig syniadau i alluogi'r darllenwyr i fesur agweddau o'n bywydau ein hunain yn eu herbyn a holi a ydynt yn gweithio. Nid da lle gellir gwell! Gobeithio, felly, y bydd y gyfrol hon yn ennyn myfyrdod a thrafodaeth yn y cartref, y dafarn, y seiat, y gymdeithas, yr Ysgol Sul, y clwb darllen, Caffi Angau, ac yn yr ysgol uwchradd. Ychydig yn aml a wna lawer!

Trefnwyd y gyfrol yn bum rhan, gydag is-deitlau sy'n deillio o'r broses o baratoi i groesi'r ffin:

**Rhan 1: Sylweddoli**: fod y corff / meddwl yn datgymalu

**Rhan 2: Darparu**: i'r gragen ddaearol ddarfod mewn hedd

**Rhan 3: Ffarwelio**: hybu'r enaid i groesi'r ffin mewn tangnefedd

**Rhan 4: Cofio**: 'mewn angof ni chânt fod'


**Rhan 5: Gyda Thi**: 'wrth fyw, wrth farw, gyda Thi'.

Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair; pris £11.99, ac mae bellach ar gael o'ch siop Gymraeg leol.

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

## Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 38

## Ymson y Sunamees

Hoffech chi gael gwybod beth ddigwyddodd? Felly, bydd yn rhaid imi ddechrau yn y dechrau, gyda'r stafell. Addurnais y lle bach clyd, lan lofft, ar gyfer y gŵr sanctaidd. Byddai'n dod heibio o dro i dro am seibiant, yn rhoi ei ben i lawr ar y gwely, neu'n eistedd ar y gadair wrth y gannwyll. Ychydig a wyddwn yr adeg honno y byddai'r fangre'n gyrchfan gras.

Mae rhai ystafelloedd yn cario atgofion. Gofynnwch i unrhyw riant ac fe fyddan nhw'n deall am y llofft lle bu'r plentyn yn cysgu, yn chwarae, yn breuddwydio. Mae stafelloedd mewn ysbytai yn ogystal sy'n cadw cyfrinachau: y geiriau a ddywedwyd wrth erchwyn gwely, y dagrau a lifodd yn y man aros, y gwae rhwng y muriau a greithiodd galon. Yn y stafelloedd hynny mae gobaith ac anobaith yn parhau i atseinio rhwng y muriau.

Fe fûm innau'n dyheu yn hir am blentyn. Roedd fy ngŵr wedi heneiddio, yn ei gorff a'i feddwl, a minnau wedi gorfod derbyn hynny. Dywedwyd wrthyf droeon fy mod yn dda yn peidio â digio. Byddwn innau'n ymateb nad yw dig yn llafar ei lef bob amser.

Un diwrnod, gofynnodd Eliseus imi am fy nyheadau. Dywedais yn ôl f'arfer nad oedd arnaf eisiau dim, gan mai ofer pob gobeithio. Dyna pryd yr addawodd imi wyrth: mab. Allwch chi ddychmygu'r effaith gafodd y gair hwnnw arnaf? Ro'n i'n methu credu. Do'n i ddim eisiau cosi'r graith ac yn sicr do'n i ddim eisiau edrych i fyw llygaid siomiant eto.

Ond, ymhen hir a hwyr, digwyddodd y wyrth! Llanwyd ein cartref â chwerthin ein babi bach; llanwyd fy nyfodol innau'n ogystal. Ymhen dim daeth blynyddoedd yr arddegau ar ein gwarthaf a ninnau'n gorfod dechrau ystyried popeth a ddeuai gyda'r aeddfedrwydd hwnnw – diwrnod priodas ein mab, dydd geni ei blant yntau. Dyna beth fyddai hapusrwydd yn wir.

Efallai mai fy mab oedd achos y gobeithio gormodol oedd ynof. Meddyliais y byddai fy mab yn byw am byth, ond daeth haint i aflonyddu arno. Arhosodd fy ngŵr yn y caeau, ond cariwyd fy mab ataf gan y gwas. Cofleidiais ef. Erbyn canol dydd yr oedd wedi oeri. Bu'n rhaid imi benderfynu gweithredu'n gyflym. Peidiodd pob synnwyr mewn eiliad. Pylodd y pelydrau oedd yn ffrydio drwy'r ffenest. Oerais innau. Rhoddais fy mab ar y gwely. Anwybyddais gerydd fy ngŵr a chychwyn ar y daith i fynydd Carmel i ofyn am help y proffwyd. Ar fy ffordd gwelais ei was, a gofynnodd hwnnw imi a oedd pawb yn iawn. Atebais yn gadarnhaol – dwn i ddim pam, wir – a dweud, 'Iawn'. Sawl un ohonom sydd wedi dweud ein bod yn iawn, a ninnau'n bell o hynny? Weithiau, gŵyr ein hisymwybod fod y gwir yn rhy fawr, neu'n rhy anodd, i'w rannu.

Llwyddais i berswadio Eliseus fod rheidrwydd arno i ddod gyda mi, a hynny'n gyflym. Wedi inni gyrraedd, gadewais ef gyda fy mab. Y peth mwyaf anodd oedd gorfod ymlonyddu, ceisio bod yn amyneddgar er fy mod ar ben fy nhennyn. Yna clywais disian, seithgwaith! Sylweddolais yr eiliad honno pa mor ffodus yr oeddwn o'i gymharu â chynifer o famau eraill. Nid pawb sy'n profi gwyrth yr ail gyfle.

**Holi**

- Beth sydd gan y stori hon i'w ddweud wrthym am golled, boed hynny'n golli plentyn neu berson, perthynas, profiad, neu gyfnod o fywyd?
- Yn hytrach na derbyn terfynoldeb marwolaeth ei mab, fe aeth y Sunamees â'i hofn at y proffwyd Eliseus. Oes neges ganddi i ni parthed mynd â materion anodd gerbron Duw?
- Gan gofio y gall iachâd ddod mewn amrywiol ffyrdd, a hefyd nad yw galar yn cael ei ddileu gan wyrth yn aml, ydych chi'n credu geiriau Duw, 'Fi ydy'r Arglwydd sy'n eich iacháu chi'? (Exodus 15:26)
- Drwy'r Sunamees cawn ein hatgoffa o angen mawr dynolryw am fywyd, gobaith, cariad, sicrwydd, adferiad, ac iachâd. Oes modd inni fel Cristnogion ddarganfod ffyrdd o ddangos empathi tuag at y rhai sy'n wynebu poen a cholled?

**Gweddi**

Arglwydd, tyrd i iacháu ein calonnau briwiedig. Cryfha'r rhai sy'n ceisio ymdopi â chario baich colled. Gwna ni'n ddewr pan nad yw'r wyrth yn ymddangos fel yr ydym yn ei ddymuno. Cysura ni ymhob ansicrwydd. Os yw ein gweddïau'n aros yn eu hunfan, heb eu hateb, rho inni ddealltwriaeth newydd. Cymorth ni. Amen.

*Siân Meinir*

BBC radio cymru S4C

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 11 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Gwyn Elfyn, Pontyberem


*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 11 Hydref, am 12:00yp**
Gwasanaeth diolchgarwch o dan arweiniad Christopher Prew, Porthmadog

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 11 Hydref 2026**

**S4C**
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 11 Hydref**
Afon Mawddach: Bydd Lowri Morgan yn dilyn taith o ffydd, yn darganfod straeon ac yn profi'r llonyddwch wrth grwydro glannau afon Mawddach. Daw'r canu o Gapel Bowydd, Blaenau Ffestiniog, dan arweiniad Trystan Lewis.

# Pigion rhifyn Hydref 2026 o'r *Traethodydd*

**Williams Pantycelyn, Richard Price, Kate Roberts, R. Williams Parry a C. H. Dodd – rhai o gymeriadau rhifyn Hydref 2026 o'r *Traethodydd***




Pyrth hardd Eglwys Sant Silyn, Wrecsam, sydd ar glawr rhifyn diweddaraf *Y Traethodydd*, a'r llun yn cysylltu â phrif erthygl y rhifyn, sef ymdriniaeth afaelgar Eryl Wynn Davies â bywyd a chyfraniad yr ysgolhaig beiblaidd C. H. Dodd.

Er i lawer gyfeirio ato fel diwinydd Seisnig, Cymro oedd Dodd, wedi'i eni a'i fagu yn nhref Wrecsam (fel yr oedd bryd hynny) ac yn hynod falch o'i dras. Cawn ddarlun cryno ohono, o'i gefndir yng nghapel yr Annibynwyr Saesneg ym Mhen-y-bryn, ei addysg yn Rhydychen, yn y Clasuron yn gyntaf ac yna mewn Diwinyddiaeth, ei flynyddoedd cynnar fel gweinidog Annibynnol yn Warwick, ei benodi i staff Coleg Mansfield, Rhydychen, ac yna ei ddyrchafu i Gadair y Testament Newydd ym Mhrifysgol Manceinion, ac wedyn yn Athro Diwinyddiaeth yng Nghaergrawnt.

Sonnir am ei gyfraniad i'n dealltwriaeth o'r Testament Newydd, o ddamhegion yr efengylau, y pregethu apostolaidd yn Llyfr yr Actau, syniadaeth gyfoethog yr Apostol Paul, hyd at ei weithiau mawr ar Efengyl Ioan. Cawn wybod hefyd am ei gyfraniad fel cyfarwyddwr y *New English Bible* a natur ei ddealltwriaeth o awdurdod yr Ysgrythur.

Traddodwyd y ddarlith sy'n sail i'r ysgrif ar faes Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025, ac mae'n cloi trwy gyfeirio at Gymreictod Dodd, a'i wybodaeth o'r Gymraeg yn taflu goleuni ar rai o eiriau ac ymadroddion y testun beiblaidd. Bydd darllenwyr *Cenn@d* yn cael blas, rwy'n siŵr, ar yr ysgrif ddiddorol hon.

Dau o lenorion mawr yr ugeinfed ganrif, sef y nofelwraig Kate Roberts ac R. Williams Parry, 'Bardd yr Haf', yw themâu'r ddwy ysgrif nesaf. Yn y gyntaf ohonynt mae Arwel Vittle a Gwen Angharad Gruffudd yn cyflwyno ail ran eu hysgrif ar ymwneud Kate Roberts â Phlaid Cymru. Bu hi'n aelod o'r Blaid Genedlaethol o'i dyddiau cynnar, a hynny am resymau diwylliannol yn fwy na rhai gwleidyddol fel y cyfryw. Stormus oedd ei pherthynas â hi, yn neilltuol o'r 1960au ymlaen, ond cadwodd yn driw iddi trwy'r cyfan.

Yn yr ysgrif ganlynol mae Rosie Dymond yn trafod yr heriau i drosi barddoniaeth Williams Parry i'r Saesneg, yn un peth er mwyn rhannu cyfoeth ein diwylliant â'r di-Gymraeg. A hithau wedi dod at yr iaith fel oedolyn, mae'n hynod ymwybodol o anawsterau pob cyfieithu. Ond mae'n werth trosi gwaith Williams Parry, meddai, am fod ei weledigaeth ynghylch natur yn medru siarad yn rymus â'n hofnau ecolegol cyfoes. Gwych o beth yw medru cynnwys y ddwy erthygl gyfoethog yma.

Yn ei ysgrif ef mae Gwynn Matthews yn cymharu ac yn gwrthgyferbynnu dau Gymro mawr o'r ddeunawfed ganrif, sef yr athronydd y Dr Richard Price, a chymeriad llawer mwy cyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom, sef Williams Pantycelyn. Bu'r ddau ohonynt yn weinidogion, roedd y ddau'n hanu o siroedd y de, Morgannwg yn achos Price a Sir Gâr yn achos Williams, a'r ddau wedi'u haddysgu yn Academi Ymneilltuol Llwyn-llwyd. Ond yno mae'r tebygrwydd yn darfod. Ariad o ran cred oedd Price, yn gwadu cyflawn dduwdod Crist, a fu'n byw yn Llundain gan gyfrannu fel athronydd at waddol diwylliant Lloegr, tra mai Methodist uniongred oedd Williams, yn emynydd ac yn awdur rhyddiaith, a arhosodd yng Nghymru gan adael ei farc ar y diwylliant Cymraeg. Cynnyrch Aroleuo'r ddeunawfed ganrif oedd y naill fel y llall, ond dwy agwedd wahanol o'r mudiad eang hwnnw. Gwelir y ddwy agwedd yn glir yn yr ysgrif hon, sy'n ein hatgoffa eto o'r amrywiaeth sy'n rhan o'n gwaddol deallusol.

Ac i gloi, y gwyddonydd y Dr Hefin Jones, yntau'n aelod o Fwrdd Golygyddol *Y Traethodydd*, sy'n tafoli cyfrol ddiweddar Ffion Mair Jones ar y polymath hwnnw Thomas Pennant, yntau hefyd yn un o wŷr y ddeunawfed ganrif. Rhwng popeth, felly, dyma rifyn cyfoethog arall o gylchgrawn llenyddol hynaf Cymru.

Mewn cyfarfod pwysig o dan lywyddiaeth yr Archdderwydd Mererid ar faes Eisteddfod y Garreg Las a oedd yn cynnwys cyfraniad gan y newyddiadurwr Dylan Iorwerth a chrynhoad hanesyddol gan y Dr Eryn White, cafwyd ymgais i godi proffil *Y Traethodydd* a denu cenhedlaeth newydd o ddarllenwyr. Yn ysbryd y cyfarfod hwnnw, anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* a'i hyrwyddo ymhlith eu cydnabod, ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.


**Y COLEG GWYN**

COLEG Y BEDYDDWYR, BANGOR

**OEDFA I DDIOLCH AM WASANAETH Y COLEG YM MANGOR**

Sefydlwyd Coleg Bedyddwyr Gogledd Cymru yn Llangollen yn 1862 cyn symud i Fangor yn 1892. O ddiwedd Medi eleni, ymunodd yn swyddogol â Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd, gan greu un coleg ar gyfer hyfforddi gweinidogion Bedyddiedig yng Nghymru.

Croesewir cyfeillion y Coleg, ei gyn-fyfyrwyr ac eraill a elwodd o'i wasanaeth ar hyd y blynyddoedd, i ymuno â ni ar gyfer oedfa dathlu.

Fe'i cynhelir am **2 o'r gloch, prynhawn Gwener, 16 Hydref 2026,** yng Nghapel Emaus, Ffordd Garth, Bangor, LL57 2RL

*Bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn*

***DEWCH YNGHYD I DDIOLCH***

# WRTH Y LLYW #20

Dechrau Medi (9 a 10) eleni, daeth i mi gyfle newydd i gynrychioli'r Undeb yng nghyfarfodydd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yng Nghasnewydd. Datgysylltwyd yr Eglwys yng Nghymru oddi wrth Eglwys Loegr yn 1920. Eiddo'r Eglwys yng Nghymru 14,000 o eglwysi mewn dros 900 o blwyfi. Mae iddynt ffurflywodraeth cwbl wahanol i ni: defnyddir y model esgobol Anglicanaidd o lywodraethu eglwysi: Corff Cynrychioliadol, Corff Llywodraethol a'r Pwyllgor Sefydlog. Wrth eistedd yn gwrando trafodaethau Corff Llywodraethol yr Eglwys honno sydd *mor* wahanol i ni, gwelais a chlywais bethau cyfarwydd ddigon: cardiau pleidleisio (Esgobion: melyn; clerigwyr: glas; lleygwyr: gwyrdd. Dim cerdyn: dim pleidlais!) Yn bwysicach na hyn oedd y cyfeirio cyson, yn arbennig felly yn – a hefyd y drafodaeth a fu yn sgil – anerchiad Archesgob Cymru, Cherry Vann at wrando ar yr eglwysi'n lleol: gwrando, a gweithredu ar yr hyn a glywid gan bobl ffydd yn eu cynefin. I ni, yr eglwys yw'r eglwys leol. Mae'r eglwys honno yn rhydd. Gall neb oruwchlywodraethu drosti, boed esgob, boed gyfundeb ac yn sicr nid yr Undeb. Nid penrhyddid mo'r rhyddid hwn, ond rhyddid o dan y Gair dan arweiniad yr Ysbryd Glân.

## Strwythurau

Trwy gydol fy neuddydd gyda'r Eglwys yng Nghymru, methais ag ysgwyd ambell gwestiwn: ydy ein trefniadaeth enwadol bellach – Adran; Cyngor a Phwyllgor Gweinyddol yn codi o, ac yn gymorth i fywyd a thystiolaeth yr eglwys leol? Ydy'n trefniadaeth yn bodoli dim ond i drefnu'r drefniadaeth? Ai dyna sy'n esbonio'r dieithrwch rhwng yr eglwys leol a'r Undeb – 'Beth a wnelo'r Undeb â ni?' Onid hynny wedyn sydd yn esbonio gwaeledd y Cyfundebau? A ydym efallai'n creu strwythurau a chodi pwyllgorau – eu pentyrru nhw mewn gwirionedd – oherwydd bod yr eglwys leol yn wan; neu a yw'r eglwys leol yn wan oherwydd ein holl strwythurau a phwyllgorau?

## Cysegriad

Prynhawn Sadwrn (12 Medi), braint oedd cael cynrychioli eglwysi Undeb yr Annibynwyr yng nghysegriad Esgob Bangor yng nghadeirlan ac eglwys fetropolitan Sant Gwynllyw, Casnewydd. Gwasanaeth o bwys; oedfa llawn bendith a bendithion. Boed wenau Duw ar weinidogaeth y Tra Barchedig Ddr Manon Ceridwen James.

## Dilladu

Fe'm trawyd gan un peth bach ar y gwahoddiad swyddogol, y geiriau 'Os yw'n briodol, mae croeso i chi arwisgo.' Yn wir, gyda'r ohebiaeth daeth *Cod Gwisg*. Wedi gweithio fy ffordd trwy'r mynych gyfeiriadau at gasog a gwenwisg, ystôl a chop, *almuce* a *mozzetta* mi ddois at y cyfarwyddwyd i 'Glerigwyr Gwadd a Gweinidogion o Enwadau Eraill' sef: 'gwisgoedd o'ch traddodiad eich hun sy'n briodol i'r Ewcharist.' Rhag i chi feddwl fy mod yn gwamalu, mi allaf eich sicrhau i'r gwrthwyneb. Fe'm trawyd gan ddau beth: mor amherthnasol i ni fel Annibynwyr y *Cod Gwisg* hwn, ond mor berthnasol yr un pryd: 'Gwisgwch amdanoch yr Arglwydd Iesu Grist,' meddai Paul (Rhufeiniaid 13:14; WM). Gwisgo Iesu! Am ffordd ryfedd o siarad am ein perthynas ag Iesu Grist!

## Gwisgo'r Arglwydd

Er mwyn cael deall y syniad yma o wisgo Iesu, rhaid ystyried y darn o'r ysgrythur mae Paul yn ei ddefnyddio fel sail i'r syniad. Yn ôl yr ysgolheigion, benthycodd Paul y syniad o wisgo Duw gan awdur o'r enw Baruch. Un o lyfrau'r Apocryffa yw Llyfr Baruch. Sylwch yn arbennig ar eiriau agoriadol y bumed bennod: 'Diosg, O! Jerwsalem, wisg dy alar a'th adfyd, a gwisg am byth harddwch y gogoniant sy'n tarddu o Dduw' (5:1).

I ddeall Baruch a'i bobl, mae'n bwysig cofio fod Baruch yn ysgrifennu 600 mlynedd cyn geni Crist: cyfnod cas i bobl Israel. Cyfnod o alltudiaeth greulon; cyfnod o dlodi mawr ym Mabilon bell. Yn y cyfnod anodd hwn, rhyw bethau ymarferol iawn oedd dillad, rhyw bethau at y gofyn. Ond roedd carpiau eu tlodi yn dweud rhywbeth amdanynt – yn dweud wrth bobl Babilon mai estron oeddent. Pobl wedi eu gorchfygu oeddent – pobl â thrueni'n drwm amdanynt. Dychmygwch felly pa mor anodd a phoenus i bobl Jerwsalem gynt, a hwythau nawr, ymhell bell o adref dan bawen Nebuchadnesar ym Mabilon, oedd clywed Baruch yn gorchymyn: 'Diosg, O! Jerwsalem, wisg dy alar, a gwisg am byth harddwch y gogoniant sy'n tarddu o Dduw. Rho amdanat fantell y cyfiawnder sydd o Dduw, a gosod ar dy ben goron gogoniant y Tragwyddol.'

## Mantell

Roedd y bobl hyn yn gweld dim ond anobaith a thor-calon. Roedd gwisg eu galar yn dynn amdanynt. Nid oeddent yn gallu dychmygu eu hunain yn gwisgo unrhyw wisg arall. I bobl Baruch, un dilledyn na ellid bod hebddo oedd y fantell. Roedd y fantell yn amddiffyn, yn ddiogelwch. Yn eich tlodi, eich mantell oedd y gwahaniaeth rhwng byw a marw –eich unig amddiffyn rhag yr elfennau. Mae Baruch felly yn cydio yn y fantell fel delwedd, ac yn deisyf ar ei bobl i ddiosg gwisg eu galar er mwyn gwisgo amdanynt fantell *y cyfiawnder sydd o Dduw*.

Mae geiriau Baruch yn cynnig i ni her a chysur – y ddau ymhlyg yn ei gilydd: 'Diosg ... wisg dy alar, a gwisg am byth harddwch y gogoniant sy'n tarddu o Dduw. Rho amdanat fantell y cyfiawnder sydd o Dduw, a gosod ar dy ben goron gogoniant y Tragwyddol.'

Nid cynnig cyngor am ffasiwn mae Baruch, ond cynnig cyngor byw. Nid peth mewnol yn unig yw ein perthynas â Duw, meddai Baruch; i'r gwrthwyneb, dilledyn i'w wisgo yw ffydd; mantell i'w wisgo er mwyn amddiffyn a chynnal ein hunain, ac er mwyn i eraill weld ein ffydd amdanom. Felly priodol – bob amser – yw arwisgo: *Gwisgwch amdanoch yr Arglwydd Iesu Grist*.

Peidiwn â gadael i'r mynd hwylus sydd ar y dôn, 'Pen yr Yrfa' ein gwneud yn esgeulus o eiriau godidog Roger Edwards (1811–86); *C.Ff.* 331), yn arbennig y cwpled:

> Fe ngwisgo â'i gyfiawnder,
> Yn *hardd* gerbron y Tad.

Dyma ewyllys Duw ar ein cyfer. Dyma ei *Cod Gwisg* yntau: ein bod yn diosg yr hen ddillad, pa mor gysurlawn bynnag y bont, a gwisgo'n hytrach ddillad newydd sbon *harddwch y gogoniant sy'n tarddu o Dduw*. Rhan fendigedig o waith achubol Duw yng Nghrist yw ein harbed rhag hunan-ddirmyg drwy ein gwisgo â'i gyfiawnder Ef ei Hunan, ie *Yn **hardd** gerbron y Tad*.

**Owain Llŷr Evans**



# Barn Annibynnol

## Eglwysi dwyieithog

Mae'r drafodaeth ddiweddar ynghylch iaith yn ein heglwysi wedi dangos pa mor ddwfn yw'r teimladau sydd gan lawer ohonom. Hoffwn gyfrannu'n barchus at y sgwrs hon, nid er mwyn ennill dadl, ond er mwyn annog myfyrdod.

Pan sefydlwyd yr Undeb, roedd Cymru yn wlad wahanol iawn i'r Gymru sydd ohoni heddiw. Roedd llawer iawn o'r eglwysi yn gwbl Gymraeg eu hiaith, ac roedd hynny'n adlewyrchu'r cymunedau yr oeddent yn eu gwasanaethu. Ers hynny, mae Cymru wedi newid yn sylweddol. Mae ein cymunedau'n fwy amrywiol, yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol, ac mae ein heglwysi wedi gorfod newid gyda hwy. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gwelsom rai eglwysi'n gadael yr Undeb er mwyn ymuno ag undebau Saesneg eu hiaith, tra dewisodd eraill aros a datblygu fel eglwysi dwyieithog. Mae'r amrywiaeth hwn yn rhan o'n hanes.

Un o gryfderau'r Undeb erioed yw nad yw'n gorff sy'n gweithredu o'r brig i lawr. Mae'n Undeb sy'n gweithio o'r gwaelod i fyny. Yr eglwysi sy'n ffurfio'r Undeb, nid y ffordd arall. Dylai hynny olygu bod llais pob eglwys sy'n aelod yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.




### Beth yw Cymraes/Cymro?

Yn aml clywir yr enw 'Annibynwyr Cymraeg'. Ond beth yw ystyr 'Cymraeg' yn yr unfed ganrif ar hugain? A yw'r gallu i siarad Cymraeg yn unig yn diffinio pwy sy'n Gymro neu'n Gymraes? Nid wyf yn credu hynny. Nid yw rhywun gwyn sy'n siarad Cymraeg yn fwy o Gymro na'r fenyw ddu sydd wedi byw yng Nghymru ers ei bod yn chwech oed ac sydd bellach yn dysgu'r Gymraeg. Nid yw'r gallu i siarad Cymraeg yn fesur o Gymreictod. Nid yw'n gwneud neb yn fwy o Gymro na'r sawl a anfonwyd i ysgol cyfrwng Saesneg gan ei rieni ac sydd wedi byw, gweithio a chyfrannu at fywyd Cymru ar hyd ei oes. Mae Cymru'n perthyn i bawb sy'n ei galw'n gartref. Mae hyn yn wir hefyd am ein Undeb.

### Amser i ystyried

Fel Cristnogion, rhaid inni ofyn cwestiwn gonest i'n hunain. A oes perygl weithiau i iaith ddod yn eilun? Nid oherwydd bod y Gymraeg yn ddrwg – i'r gwrthwyneb, mae'n drysor i'w chadw a'i meithrin – ond oherwydd y gall unrhyw beth gymryd y lle sydd i fod i berthyn i Grist yn unig. Pan fo iaith yn dod yn rhwystr i berthyn, mae'n bryd inni stopio a myfyrio. Mae'r mater hwn yn un personol iawn i mi. Nid Cymraeg yw iaith gyntaf fy mam. Nid Cymraeg yw iaith gyntaf fy ngwraig chwaith, ond mae fy ngwraig yn Gristion ffyddlon ac yn aelod gwerthfawr o'n heglwys. A yw hi'n llai teilwng o berthyn i eglwys sydd yn aelod o'r Undeb a'r Cyfundeb? A yw ein heglwys ni yn llai o eglwys am ei bod yn addoli yn y Gymraeg a'r Saesneg? A oes croeso gwirioneddol i bawb, neu i rai yn unig ..?

### Rheolau

Mae rhai yn dweud, 'Rhaid cadw at y rheolau.' Wrth gwrs, mae rheolau'n bwysig. Ond pan fo rheol yn ymwneud ag iaith, rhaid bod yn ofalus iawn. Gall rheol a fwriedir i ddiogelu droi'n un sy'n gwthio pobl i ffwrdd. Mewn oes lle mae pawb yn sôn am gynhwysiant, mae'n werth inni ofyn a yw ein geiriau a'n polisïau yn adeiladu pontydd neu'n codi muriau o ran iaith? Mae pobl yn fwy na'r iaith y maent yn ei siarad. Mae gan bob person galon, hanes, teulu a ffydd. Dyna sy'n bwysig yng ngolwg Duw.

### Rhagfarnllyd

Felly, gadewch inni fod yn ofalus rhag rhagfarn o unrhyw fath – boed yn erbyn siaradwyr Cymraeg neu siaradwyr Saesneg. Gadewch inni beidio â gwneud i aelodau Saesneg eu hiaith o'n Cyfundebau a'n Undeb deimlo fel 'aelodau eilradd' yn ein teulu eglwysig. Gadewch inni beidio â gwneud i eglwysi dwyieithog deimlo eu bod ar gyrion yr Undeb. Plîs. Rydym oll yn aelodau o'r un Undeb. Mae hawl gyda ni. Rydym oll yn talu ein cyfraniadau. Rydym oll yn rhan o'i genhadaeth. Ac oherwydd fy mod yn caru'r Undeb hwn, byddaf yn parhau i leisio fy marn o'i fewn, nid i'w wanhau, ond i'w weld yn gryfach, yn fwy croesawgar ac yn adlewyrchu Cymru fel y mae heddiw, nid echdoe. Os mai Crist yw pen yr Eglwys, yna dylai fod lle wrth Ei fwrdd i bawb y mae Ef yn eu galw – waeth beth fo'u mamiaith. Crist, cadwa ni rhag rhagfarn.

**Rhys Locke**

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

## Cyngor hydref yr Undeb yn Aberystwyth

Bydd cyfarfod o Gyngor yr Undeb yn digwydd yn Aberystwyth 8–9 Hydref. Y tro hwn, bydd y Cyngor yn cychwyn nos Iau gyda swper ac yna sesiwn lansio CD *Goleuni* ble byddwn ni'n cael cyfle i glywed y caneuon newydd a chyfle i'w dysgu gyda'n gilydd – swper a sing-song i bawb felly!



Yna, ar ddydd Gwener, byddwn yn dod ynghyd fel Cyngor llawn i edrych ar gyfrifoldebau'r pedair adran (sef Adran Cenhadaeth, Adran Dinasyddiaeth, Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth ac Adran Tystiolaeth) er mwyn gwirio ydyn nhw'n gwneud beth sydd eu hangen yn ein hoes ni. Bydd pob adran yn rhoi cyflwyniad byr i'r Cyngor llawn o gyfrifoldebau presennol eu hadran yn ôl y cyfansoddiad, a'r hyn y maent wedi bod yn trafod yn ddiweddar. Yna bydd yna sesiynau fydd yn rhannu i mewn i'r adrannau ble bydd amser gan bob adran i drafod eu hagendâu fel arfer, ynghyd â chyfle i graffu ar y cyfrifoldebau ac edrych i weld os oes angen addasu, diweddaru neu newid unrhyw beth. Yna daw'r Cyngor ynghyd ar gyfer sesiwn gyflawn i weld beth drafodwyd a chael sgwrs am sut ydyn ni am symud ymlaen gyda'n gilydd.

Mae'n amserol i ni wneud 'awdit' o adrannau'r Cyngor bob nawr ac yn y man, aeth oddeutu deg mlynedd heibio ers y tro olaf. Dyma ni'n edrych ar sut i symud yn ein blaenau tua'r cyfnod newydd heriol sy'n ein hwynebu ni am fod angen bod yn ymatebol i bob oes. Cewch adroddiad gan gynrychiolwyr eich cyfundebau ar ôl y cyfarfodydd fel bod modd i chi wybod beth sy'n digwydd gyda gwaith y Cyngor a'r Undeb.

**Elinor Wyn Reynolds**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:*** **02920 490582**
***E-bost:*** **tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**
**Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE**
***Ffôn:*** **01766 513138**
***E-bost:*** **IwanLlew@aol.com**


**Alun Lenny**
**Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX**
***Ffôn:*** **01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:*** **alunlenny@hotmail.co.uk**

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:*** **01792 795888**
***E-bost:*** **undeb@annibynwyr.cymru**

***Dalier Sylw!***
**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# Cymanfa bregethu gyd-enwadol Llŷn

Cynhaliwyd y gymanfa gyntaf ym mis Awst 1903 gyda phum pregethwr yn cymryd rhan, yn cynrychioli'r pum enwad gyda dwy bregeth brynhawn Mercher; dwy bregeth nos Fercher; dwy bregeth fore Iau; dwy bregeth brynhawn Iau a dwy bregeth nos Iau. Byddai'r neuadd yn orlawn ond aeth y niferoedd yn llai dros y blynyddoedd – yn ystod y deng mlynedd olaf dim ond un oedfa geir ar y nos Iau. Cafwyd y syniad i gynnal oedfaon pregethu gan bedwar o ŵyr da yr ardal a'r gof, ar ddiwrnod dyrnu yn Nhŷ Canol, fferm nepell o'r neuadd.






Roedd y gymanfa eleni yn 103 oed (collwyd dwy flynedd yn ystod Covid). Cafwyd gŵyl i'w chofio gyda chynulleidfa gefnogol yn gwrando ar negeseuon y Parchg Ddr Alun Morton Thomas, Porthaethwy, a'r Parchg R. E. Hughes, Nefyn. Roedd y canu yn ysbrydoledig dan arweiniad Mrs. Gwladys Thomas, Tŷ Mawr a Mrs. Gwenda Roberts o Eglwys Hebron, yn cyfeilio. Yn ystod y casgliad canwyd y geiriau Calon Lân ar y dôn Blaenwern – chlywyd erioed well dehongliad meddai'r cerddorion oedd yn y gynulleidfa. Llywyddwyd y gweithgareddau gan Mrs. Doris Jones, Hebron. Does dim gŵyl debyg iddi drwy Gymru –hir y parhao.

Yn sŵn Ei air, ceisiwn ni
gadw hon rhag dihoeni.
Guto Dafydd

Cytuno'n llwyr!

**Gwenda Roberts**




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*